

CAPEL Y TABERNAACL, Cyf.

ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIAD ARIANNOL

Y flwyddyn hyd at 31^{ain} Rhagfyr 2018



Capel y Tabernacl, Cyf.

Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:
06349041 (Cymru)
Elusen Gofrestredig Rhif: 1122584

CYNNWYS

Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	Tudalen 2–3
Swyddogion y Tabernacl	Tudalen 4–5
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	Tudalen 6–7
Adroddiad y Cadeirydd	Tudalen 8–9
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol	Tudalen 10
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	Tudalen 11
Mantolen	Tudalen 12
Nodiadau sy'n ffurfio rhan o'r Datganiadau Ariannol	Tudalen 13–20
Datganiad Manwl o'r Gweithrediadau Ariannol	Tudalen 21
Atodiad 1: Cyfraniadau'r Aelodau	Tudalen 22–23
Atodiad 2: Ystadegau 2018	Tudalen 23

Dymuna Capel y Tabernacl, Cyf. ddiolch i'r canlynol am eu cymorth ariannol gyda'r gwaith o wella'r adeiladau yn ddiweddar:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg
ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen.

Enw cofrestredig y cwmni:	Capel y Tabernacl, Cyf.
Cwmni Cyfyngedig Cofrestredig:	0349041(Cymru)
Elusen Gofrestredig:	1122584
Cyfeiriad Cofrestredig:	9 Gerddi'r Sofran, Ffordd Cefn yr Hendy, Meisgyn, Pont-y-clun CF72 8SZ
Ysgrifennydd y Cwmni:	Gwilym Huws

Ymddiriedolwyr yr Elusen a Chyfarwyddwyr y Cwmni

Enw	Etholwyd
Siân Llewelyn Barnes	Tachwedd 2017
Margaret Pritchard Copley*	Tachwedd 2015
Ann Dwynwen Davies	Tachwedd 2016
Eluned Mary Davies-Scott	Tachwedd 2017 (<i>Cadeirydd</i>)
Edwyn Evans	Tachwedd 2018
Bethan Angharad Lloyd Herbert	Tachwedd 2018
Rhiannon Humphreys*	Tachwedd 2015
Arwyn Lloyd Jones	Tachwedd 2017
Emlyn Penny Jones	Tachwedd 2016
Sian Elin Jones*	Tachwedd 2015
Rhiannon Llewelyn	Tachwedd 2017
Gwerfyl Morse*	Tachwedd 2015
Geraint Eirian Rees	Tachwedd 2016
John Llewellyn Thomas	Tachwedd 2016
David Michael West	Tachwedd 2018

Mae disgwyl i draean y chyfarwyddwyr ymddeol yn eu tro bob blwyddyn.
Ymddeolodd y chyfarwyddwyr a nodir gyda * ym mis Tachwedd 2018.

Gwefan: www.tabernacl.org

Cyfreithwyr: Devonalds, York House, Pontypridd CF37 1JW

Banc: Lloyds TSB, Sgwâr y Farchnad, Pontypridd CF37 2TF

Cyfrifydd: Watts Gregory LLP, Cyfrifwyr Siartredig, Elfed House, Oak Tree Court,
Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RS

SWYDDOGION Y TABERNACL

Cadeirydd:

Eluned Mary Davies-Scott

Ysgrifennydd:

Gwilym Huws

Trysorydd:

Arwyn Lloyd Jones

Trefnydd Oedfaon, Cyhoeddiadau a Phriodasau:

Geraint Rees

Cofrestryddion Priodasau:

Rhiannon Humphreys,
Rhys Llewelyn a Helen Middleton

Trefnydd Bedyddiadau:

Jane Eryl Jones

Organyddion a Chyfeilyddion:

Sian Elin Jones gyda chymorth
Bethan Roberts, Rhiannon Humphreys ac Eleri Huws

**Swyddog Llenyddiaeth, Trefnydd Llywyddion
a Chofnodydd Aelodaeth:**

Rowland Wynne

Golygydd y Wefan a Bas-data cyfeiriadau e-bost:

Emlyn Davies

Cysylltwyr Ardal:

Creigiau a Groesfaen: Geraint W. Davies, Jen Macdonald, Nia Williams

Crown Hill, Gwaun Meisgyn a Beddau: Ann Rees

Efail Isaf: Judith Thomas, Loreen Williams

Llantrisant: Rhiannon Price, Lowri Roberts

Meisgyn: Jane Eryl Jones

Pentre'r Eglwys: Rhiannon Humphreys, Carys Davies, Eirian Rowlands

Pentyrch: Marian Wynne

Ton-teg: Elaine James, Audrey Lewis

Radur a Gwaelod-y-Garth: Rosalind Evans

SWYDDOGION Y TABERNACL - parhad

Y Gweithgor Gweinidogaethu:

Parchg. D. Eirian Rees (*Cadeirydd*)

Allan James (*Ysgrifennydd*)

Merched y Tabernacl:

Judith Thomas

Gaynor Evans

Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol:

John Ll. Thomas (*Cadeirydd*)

Ann D. Davies (*Ysgrifennydd*)

Cymorth Cristnogol: John Ll. Thomas

Bwydo'r Digartref: Gill Rees

Cronfa Lesotho: Nia Williams

Yr Ysgol Sul a'r Twmiaid:

Lowri Roberts (*Ysgrifennydd*)

Yr Ysgol Sul: Bethan Reynolds

Y Twmiaid: Catrin a Heulyn Rees

Pwyllgor Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus:

Gwion Evans (*Cadeirydd*)

Gwirwyr DBS: Wendy Reynolds a Gwerfyl Morse

Pwyllgor y Meddiannau:

Mike West (*Cadeirydd*)

Y Fynwent: Rob Emanuel

Gweithgor Ariannol:

Wyn Penri Jones (*Ysgrifennydd*)

Rheolwr y Safle:

Ioan Rees

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn Gyfarwyddwyr yr elusen at ddiben deddfwriaeth cwmnïau, yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol archwiliedig am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2018. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu'r "Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau" a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015 wrth baratoi'r adroddiad blynyddol, ac mae'r datganiadau hyn yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015).

Strwythur, rheoli a threfn lywodraethol

Mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn gwmni elusennol ac yn gwmni cyfyngedig o dan warant fel y'i diffinnir yn Neddf Cwmnïau 2006. Fe'i sefydlwyd yn unol â'r Memorandwm sy'n datgan manylion a phwerau'r cwmni, a chaiff ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasiad.

Prif ddiben y cwmni yw hybu'r grefydd Gristnogol yn unol â chredoau'r anghydfurfwyr Protestannaidd a elwir yn Annibynwyr Cymraeg, fel aelodau o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg; a hefyd at ddibenion cyffredinol y cyfryw gyrff elusennol neu at ddibenion eraill a fydd yn elusennol yn unig fel y penderfynir o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolwyr. Y Bwrdd sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel Ymddiriedolwyr.

Yr Ymddiriedolwyr

Etholir yr Ymddiriedolwyr gan Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol Capel y Tabernacl, Cyf. Ni fyddant yn llai na chwech mewn nifer ond (oni bai y pennir fel arall gan benderfyniad cyffredin), ni fyddant yn amodol ar unrhyw uchafswm. Mae gan y Bwrdd hawl i gyfethol Ymddiriedolwyr ychwanegol. Yn dilyn pob Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn penodi un o'u plith i fod yn gadeirydd eu cyfarfodydd. Y nifer angenrheidiol i ffurfio cworwm yw 6 person sydd â'r hawl i bleidleisio ar y mater i'w drafod.

Ymgynghorwyr

Trwy gydol 2018 gweithredodd y Parchedig Eirian Rees, Allan James a Keith Rowlands fel ymgynghorwyr.

Rheoli

Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd yn fisol. Mae gwaith yr eglwys yn cael ei drefnu o ddydd i ddydd gan nifer o bwyllgorau a gweithgorau sy'n cwrdd yn rheolaidd.

Bydd pob un o'r pwyllgorau a'r gweithgorau hyn yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn rheolaidd.

Mae'r Erthyglau Cymdeithasiad yn datgan bod pob aelod o'r Elusen yn ymgymryd i gyfrannu at asedau'r elusen swm gofynnol na fydd yn fwy na deg punt os digwydd i'r elusen gael ei dirwyn i ben.

Cyflogaeth

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cyflogi un person rhan-amser, sef Mr Ioan Rees fel Rheolwr Safle, ynghyd â glanhawr.

Adolygiad Risg

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi adolygu'r risgiau sylweddol hynny lle mae Capel y Tabernacl, Cyf. yn agored i risg, ac mae systemau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau hynny. Paratowyd adroddiadau rheolaidd er mwyn sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau, sydd yn cynnwys risgiau megis parhad y capel, materion ariannol, iechyd a diogelwch, amddiffyn plant ac oedolion bregus, data personol yr aelodau, staffio a'r amgylchedd.

Amcanion a Gweithgareddau

Mae'r elusen yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennol ar lesâd cyhoeddus. Prif amcan yr elusen yw bod yn eglwys sy'n cynnig cyfle i'r aelodau fod yn dystion i Iesu Grist ym mhentref Efail Isaf, ac yn yr ardal o gwmpas. Golyga hynny ymgymryd â'r holl weithgareddau sy'n arferol i eglwys Gristnogol ac fe'u rhestrir yn yr Erthyglau Cymdeithasiad. Mae gan y cwmni hefyd hawl i arddel at ddibenion cyffredinol unrhyw gorff elusennol y dymuna'r Ymddiriedolwyr ei gefnogi, neu at ddibenion eraill y bydd yr Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn rhai cyfan gwbl elusennol.

Llwyddiannau a Pherfformiad

Gweler adroddiad y Cadeirydd. Hefyd ceir manylion pellach yng nghorff yr Adroddiad Blynyddol.

Adolygiad Ariannol

Adroddir canlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2018 yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar dudalennau 9–18.

Derbyniwyd cyfanswm incwm o £40,921 (2017: £44,384) a gwariwyd £40,813 (2017: £45,090), ac felly yr incwm net oedd £108 (2017: gwariant net £706). Yn 2017 gwnaed y taliad terfynol o £14,015 i'r contractwyr adeiladu am atgyweirio'r capel gan ychwanegu at werth yr asedau sefydlog. Yr unig swm sydd bellach heb ei dalu am y gwaith atgyweirio yw balans y benthyciad di-log oddi wrth Undeb yr Annibynwyr Cymraeg sydd nawr wedi ei ostwng i £6,000.

Cyfanswm cronfeydd y cwmni ar 31 Rhagfyr 2018 oedd £753,271, o'r hyn roedd £3,958 wedi ei gadw at ddibenion cyfyngedig a £676,143 wedi ei glymu mewn asedau sefydlog. O ganlyniad roedd gan yr elusen £73,278 wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn (2017: £57,621).

Ni roddwyd unrhyw dâl i'r Ymddiriedolwyr.

Polisi Arian Wrth Gefn

Penderfynodd yr Ymddiriedolwyr roi ystyriaeth fanwl i anghenion y cwmni elusennol am arian wrth gefn, yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau yn y ddogfen "Elusennau a chronfeydd wrth gefn" (CC19).

Yn ein barn ni, mae angen cronfa wrth gefn i'r dibenion canlynol:

1. I gynnal gwaith yr elusen a gweithgareddau'r eglwys mewn cyfnodau lle y gallem fod yn wynebu gostyngiad mewn incwm.
2. I wireddu prosiectau mewn cyfnod byr yn ôl y galw.
3. I gynnal a chadw'r adeiladau fel ein bod yn medru wynebu unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol heb i'r gost lesteirio ein prif waith fel eglwys.

Polisi Buddsoddi

Rheolwyd polisi buddsoddi'r cwmni gan yr Erthyglau Cymdeithasiad, o fewn y canllawiau a osodwyd. Rydym yn adolygu'r sefyllfa hon yn gyson.

Polisi Cronfeydd

Mae'r cwmni'n ffodus bod cyfran helaeth o'r incwm yn dod trwy gyfraniadau aelodau, a'r rheiny ar y cyfan yn weddol gyson trwy'r flwyddyn, gyda nifer helaeth yn talu trwy archeb banc. Derbynnir tua £22K y flwyddyn mewn cyfraniadau gan aelodau. Y polisi yw ceisio sicrhau bod tua 3 mis o wariant arferol yn aros yn y cyfrif cyfredol yn gyson, a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa fuddsoddi, fel y nodwyd uchod.

Datblygiadau

Teimla'r Ymddiriedolwyr yn hyderus fod dyfodol ariannol Capel y Tabernacl, Cyf. ar seiliau cadarn iawn.

Archwilydd Annibynnol

Archwilydd Annibynnol y cyfrifon hyn oedd Watts Gregory LLP, Elfed House, Oak Tree Court, Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd CF23 8RS.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar sail canllawiau *Cyfrifo ac Adrodd i Elusennau: Datganiad o Arferion a Argymhellwyd* sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon ac yn unol â gofynion Safonau Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (gweithredol o 1 Ionawr 2015).

Cymeradwywyd gan y Cyfarwyddwyr/Ymddiriedolwyr ar 9 Gorffennaf 2019 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Enw: Siân Llewelyn Barnes
Ymddiriedolwr



Enw: Emlyn Penny Jones
Ymddiriedolwr

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Carwn ddiolch i'r Ymddiriedolwyr am eu hymddiriedaeth ynof i fod yn Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Tipyn o her oedd olynu Margaret Pritchard Copley a Wendy Reynolds, fu'n gadeiryddion rhagorol o'm blaen. Hoffwn ddiolch i bob un o aelodau'r Bwrdd am eu cefnogaeth, sy'n gwneud y profiad o gadeirio'r cyfarfodydd misol yn un mor gadarnhaol. Mae eu hymroddiad, eu brwdfrydedd a'u cydweithrediad i gefnogi pob agwedd o waith yr eglwys yn rhagorol. Caiff cadeirio'r cyfarfodydd ei hwyluso gan ymroddiad holl swyddogion y Bwrdd a swyddogion Gweithgorau a Phwyllgorau niferus yr eglwys. Does dim cadeirydd na phwyllgor effeithlon yn bodoli heb ysgrifennydd cydwybodol a dibynadwy, a heb amheuaeth mae Gwilym Huws yn cwrdd â'r gofynion hynny. Diolch iddo am fy arwain i ar y trywydd cywir fel cadeirydd newydd, am wasanaethu'r cyfarfodydd, ac am ddelio'n ddiplomataidd gyda materion sy'n codi.

Pleser oedd cael croesawu tri aelod newydd i'r Bwrdd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Tachwedd. Ar ran yr eglwys gyfan, carwn ddiolch yn ddiffuant i Edwyn Evans, Dr Bethan Herbert a Michael West am eu parodrwydd i ymgymryd â'r swydd, ac am eu cyfraniad adeiladol at waith y Bwrdd. Ar yr un pryd daeth cyfnod i ben i bedair aelod fu'n weithgar iawn, sef Margaret Pritchard Copley, Rhiannon Humphreys, Sian Elin Jones a Gwerfyl Morse.

Mae mynychu gwasanaethau fore Sul bob amser yn fy synnu am y gorau gan fod neges yr Efengyl yn cael ei chyflwyno mewn cynifer o ffyrdd diddorol ac amrywiol. Fel eglwys, rydym yn ffodus fod nifer o'n haelodau'n barod i rannu'r cyfrifoldeb dros gynnal canran uchel o'n hoedfaon. Ers blynnyddoedd bellach, gwneir cyfraniad gwerthfawr iawn gan wirfoddolwyr sy'n llywyddu a chydlynu'r gwasanaethau yn eu ffordd bersonol eu hunain. Gellir ychwanegu at hyn y patrwm misol o oedfaon yng ngofal pentrefi neu deuluoedd, ynghyd â chyfraniad yr Ysgol Sul a'r Twmiaid. Rydym hefyd yn dra diolchgar i'r rhai hynny o'n haelodau sy'n barod i gyflwyno myfyrdodau deallus i'n hysgogi, ac weithiau i'n herio. Dau ymwelydd rheolaidd sydd bob amser yn cyflwyno neges i atgyfnerthu ein ffydd a'n hargyhoeddi o berthnasedd dysgeidiaeth Iesu Grist i'r byd blin rydym yn byw ynddo yw'r Parchedigion Gethin Rhys ac Aled Edwards. Diolch o galon i bawb sy'n cyfoethogi ein profiad ysbrydol, a'n hatgoffa o'n cyfrifoldeb fel aelodau o'r eglwys i weithredu'n unol â neges yr efengyl. Gwerthfawrogwn hefyd gyfraniadau'r cyfeilyddion dawnus sy'n llwyddo'n ddieithriad i osod naws defosiynol i'n haddoliad.

Oedfa fwyaf cofiadwy'r flwyddyn a aeth heibio oedd yr un a gynhaliwyd ar Sul y Cofio – union ganrif i'r diwrnod y cyhoeddwyd diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y gwasanaeth rhoddwyd sylw teilwng i bump o fechgyn ifanc Capel y Tabernacl a gwmpodd yn y gyflafan. Gyda chymorth gwaith ymchwil staff Canolfan Garth Olwg, cyflwynodd Geraint Rees – llywydd y gwasanaeth – beth o hanes bywydau Wilfred Brynmor Williams, Charles Rees, Thomas William Lewis, Emrys Jones a Nicholas Goodfellow. Y cyfan a wyddem amdanynt cyn yr oedfa oedd yr hyn oedd ar y cofebau – eu henwau, eu rheng a'u catrawd, a'r dyddiad y lladdwyd hwy ar faes y gad. Wrth ddysgu rhagor am y bechgyn hyn, gallai'r gynulleidfa werthfawrogi'r ymdeimlad o'r golled enbyd i'w teuluoedd ac i'r gymuned. Neilltuwyd gweddill y gwasanaeth i fyfyrddod grymus y Prifardd Aled Gwyn, a resynai nad oedd yr awdurdodau wedi dysgu dim o ganlyniad i holl erchyllterau a cholledion dau ryfel byd.

Mae bob amser yn bleser gweld y plant a'r bobl ifanc yn mwynhau'r profiad o gyflwyno oedfaon i ddathlu Gŵyl y Geni. Eleni eto cawsom ddwy oedfa drawiadol ar themâu cyfoes a pherthnasol gan blant yr Ysgol Sul a'r Twmiaid. Efen sy'n gwbl ganolog i lewyrch unrhyw eglwys yw'r gweithgareddau a gynigir i'r to iau. Yma yn y Tabernacl, rydym yn hynod ffodus o fedru manteisio ar gyfraniad gwerthfawr athrawon yr Ysgol Sul ac arweinwyr y Twmiaid; maent bob amser yn barod i wynebu'r her o ennyn brwdfrydedd ymhlith y plant a'r bobl ifanc, a hynny yn wyneb cystadleuaeth gan atyniadau poblogaidd di-ri ar y Sul. Bydd y profiadau a dderbyniant yn eu blynnyddoedd ffurfiannol yn rhoi sylfaen gadarn iddynt am weddill eu bywydau. Rydym wedi gweld unwaith eto eleni arwyddion clir y byddant yn tyfu'n ddinasyddion goddefgar a theg, fel y tystia eu gwaith elusennol yng nghyfnod y Cynhaeaf a'r Nadolig.

Lawn mor bwysig i ffyniant yr achos yw parodrwydd nifer fawr o aelodau i gefnogi'r oedfaon a gweithgareddau eraill yr eglwys trwy wirfoddoli i gyflawni'r dyletswyddau llai cyhoeddus. Gwerthfawrogwn gyfraniadau'r rhai sy'n Ofalwyr Ardal, yn paratoi a chyflwyno'r sleidiau, llunio'r daflen, cynnal gwefan yr eglwys, croesawu ymwelwyr i'r capel, gofalu am rota'r llywyddion, y cyfeilyddion a'r blodau, paratoi elfennau'r cymun, a llunio rhaglen oedfaon y flwyddyn. Diolch hefyd i'r aelodau hynny sy'n anfon adroddiadau a chyhoeddiadau i'r wasg er mwyn tynnu sylw'r gymuned ehangach at ein gweithgareddau. Heb gyfraniad gwerthfawr pob un o'r rhain, ni fyddai crystal graen ar yr achos.

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

Mae'r gwaith elusennol yn parhau'n greiddiol i weithgareddau'r eglwys, diolch i arweiniad, diwydrwydd a dyfalbarhad y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. Yr hyn sy'n gyrru'r ymdrechion elusennol yma yw'r ffydd y bydd ein cefnogaeth yn gwella rhywfaint ar amgylchiadau'r rhai sydd yng nghrafangau tloedi, salwch, rhyfel ac anghyfiawnder yn ein hardal leol ac ar draws y byd. Eleni, bu'r eglwys hefyd yn gefnogol i Apêl Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gynorthwyo trigolion Madagascar, un o wledydd tlotaf y byd. Targed yr Undeb yw codi £200,000 i gefnogi prosiectau i ddarparu lloches i ferched bregus, meddygfa a deintyddfa i bobl anghenus, cartref i blant amddifad, a chynllun i hyfforddi gweinidogion fel y gallant ddysgu'r bobl sut i dyfu mwy o gnydau er mwyn lliniaru problemau diffyg maeth. Carwn ddiolch yn arbennig i'r Twmiaid am wthio'r cwch i'r dŵr trwy gynnal Cinio Cynhaeaf ym mis Hydref lle codwyd dros £500 tuag at yr apêl.

Derbyniodd y bum elusen leol y cytunwyd i'w cefnogi eleni – Adref, Prosiect Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru, a Nychdod Cyhyrol (*Muscular Dystrophy*) Duchenne a Becker – gyfraniad o £500 yr un o'r casgliad amlenni brown. Yng Nghyfarfod Blynyddol 2018 cytunwyd i gasglu at yr elusennau canlynol yn ystod 2019: Adref, Prosiect Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru, a CICRA. Ymhlith gweithgareddau elusennol eraill y Gweithgor gellir rhestru gofalu am gasgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol, casglu nwyddau i'r cartref trwy Adref a Cwtch, casglu bwyd i Fanc Bwyd Taf Elái, a staffio'r casgliad yn archfarchnad Tesco, Tonysguboriau, ddwywaith y flwyddyn. Mae'r Gweithgor hefyd yn trefnu i godi arian i brynu talebau Nadolig i bobl ifanc wrth iddynt adael gofal. Bu gwirfoddolwyr o'r eglwys yn darparu te pnawn Sul yng nghapel Tabernacl yr Ais bedair gwaith y flwyddyn ers blynyddoedd lawer. Am gyfnod o chwarter canrif, bu'r trefniadau yng ngofal Margaret Calvert, ac wrth iddi hi drosglwyddo'r awenau i Gill Rees, Eleri Jones a Sylvia Davies, diolchwn yn ddiffuant iddi am ei gwaith diflino a dymunwn yn dda hefyd i'r gwirfoddolwyr sydd wedi cytuno i'w holynu. Cyfrannu at Uned y Galon, Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Llantrisant, oedd dewis Merched y Tabernacl, ac fe gyflwynwyd sic am £235 i Dr Gethin Ellis at waith yr uned.

Mater y rhoddwyd cryn sylw iddo gan y Bwrdd oedd cyflwr truenus y tiroedd o amgylch y capel. Dan arweiniad medrus Emllyn Penny Jones, lluniwyd adroddiad cynhwysfawr ar y rhandiroedd a'r camau ymarferol yr oedd angen eu mabwysiadu i'w tacluso. Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad, a thros fisoedd llwm y gaeaf llwyddodd pedwar o'r aelodau – Edwyn Evans, Emllyn P. Jones, Mike West a John Ll. Thomas – i gwrdd yn wythnosol i docio, clirio a llosgi'r holl ddrain a'r mieri oedd wedi ffynnu yno ers rhai blynyddoedd. Cyn cwblhau'r gwaith, fe gyflwynwyd ail adroddiad yn amlinellu sut i ymestyn y fynwent. Wedi derbyn sêl bendith y Bwrdd, aethpwyd ati'n ddiymdroi i logi contractwr i dorri rhai o'r coed talaf a symud pridd rhydd er mwyn gwastatáu'r tir yn y pen pellaf. Yna treuliodd y pedwar gwirfoddolwr wythnosau lawer yn cwblhau'r tasgau angenrheidiol, gan gynnwys gosod llwybr newydd a pharatoi'r tir i'w hadu. Ar ran aelodau'r eglwys, carwn dalu diolch o waelod calon i bob un o'r rhai sydd wedi llafurio mor ddiwyd i roi trefn ar diroedd y capel. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Mark Porter, athro yn Ysgol Garth Olwg, sydd wedi paratoi cynllun uchelgeisiol i greu ardaloedd natur i ddenu amrywiaeth o fywyd gwyllt i'r safle. O'i weddnewid o fod yn 'anialwch blêr' i fod yn ardal gadwriaethol ymhen blwyddyn neu ddwy, gall brofi i fod yn llecyn delfrydol i ymweld ag e am lonyddwch meddwl neu i fyfyrto.

Erbyn cyhoeddi'r adroddiad nesaf byddwn, fel eglwys, yng nghanol y dathliadau i nodi 150 mlynedd ers ailadeiladu'r capel. Lluniwyd rhaglen fydd nid yn unig yn dathlu hanes yr achos, ond hefyd yn cynnwys digwyddiadau i wyntyllu sut y medrwn ddatblygu'r eglwys ymhellach dros y degawdau nesaf. Edrychaf ymlaen at weld ffrwyth y paratoadau sydd ar y gweill. Byddai'r hynafiaid, y gwelwn enwau rhai ohonynt wedi eu cofnodi ar furiau'r capel, yn falch iawn bod dyfodol yr eglwys yn ddiogel am flynyddoedd lawer eto wedi'r cyfnod o ansicrwydd a gafwyd yn yr 1960au.

Cyflwynwn ein cyfrifon am y flwyddyn 2018, gan gofnodi ein diolch i'r cyfrifwyr, Watts Gregory LLP, am eu gwaith manwl. Ar ran holl swyddogion yr eglwys, carwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau hael eto eleni i'r achos ac i'r elusennau rydym yn eu cefnogi.

Rydym yn byw mewn oes gythryblus ac ansicr, gyda llawer i'w ystyried am y byd yr ydym am fod yn rhan ohono, yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Yn y pen draw, caiff y byd hwnnw ei lunio gan berthynas pobl â'i gilydd yn hytrach na chan ddeddfwriaeth. Ein her ni yw cynnig sylfaen gadarn i'n bywydau a'n ffydd trwy roi ein cyfamod eglwysig ar waith. Hoffwn orffen trwy ddyfynnu geiriau Sant Ioan Paul II: 'Rwy'n pledio gyda chi! Peidiwch byth â rhoi'r gorau i obeithio, peidiwch byth ag amau, peidiwch byth â blino, a pheidiwch byth â digalonni. Peidiwch ag ofni.'

Eluned Davies-Scott
Cadeirydd
9 Gorffennaf 2019

**ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR
CAPEL Y TABERNACL, CYF.**

Adroddiad yr archwilydd annibynnol i ymddiriedolwyr Capel y Tabernacl, Cyf. ('y Cwmni')

Yr wyf yn adrodd i ymddiriedolwyr yr elusen am fy archwiliad o gyfrifon y Cwmni am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2018.

Cyfrifoldebau a sail yr adroddiad

Fel ymddiriedolwyr y Cwmni (a hefyd y cyfarwyddwyr at ddibenion deddfwriaeth cwmnïau) chi'n sy'n gyfrifol am baratoi'r cyfrifon yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').


Wedi bodloni fy hun nad oes angen i gyfrifon y Cwmni dderbyn awdit o dan Rhan 16 Deddf 2006, a'i bod yn gymwys ar gyfer archwiliad annibynnol, gallaf adrodd ar sail fy archwiliad o gyfrifon yr elusen o dan Adran 145 o Ddeddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gynnal fy archwiliad rwyf wedi dilyn Cyfarwyddiadau y Comisiwn Elusennau o dan Adran 145(5) (b) o Ddeddf 2011).

Datganiad yr Archwilydd Annibynnol

Rwyf wedi gwblhau fy archwiliad, a gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater wedi dod i'm sylw mewn cysylltiad â'm harchwiliad sy'n peri i mi gredu:

1. nad yw'r cofnodion cyllido wedi eu cadw mewn perthynas â'r Cwmni yn unol â gofynion Adran 386 Deddf 2006;
neu
2. nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hyn;
neu
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion Adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn cyflwyno darlun cywir a theg nad yw'n rhan o'r materion gaiff eu hystyried fel rhan o archwiliad annibynnol;
neu
4. nad yw'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â methodoleg ac egwyddorion y Datganiad o Ymarfer a Argymhellwyd (*Statement of Recommended Practice*) a ddefnyddir i gyfrifo ac adrodd gan elusennau sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn ôl gofynion Safon Adroddiadau Ariannol y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).

Nid oes gennyf unrhyw gonsŷrn ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion mewn cysylltiad â'r archwiliad y dylid tynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn dod i ddealltwriaeth llawn o'r cyfrifon.



J Mortimer
FCCA
Watts Gregory LLP
Cyfrifwyr Siartredig
Elfed House
Oak Tree Court
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8RS

Dyddiad: 31 Gorffennaf 2019

CAPEL Y TABERNACL, CYF

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL
(YN CYNNWYS CYFRIF O INCWM A GWARIANT)
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018**

	Nodiadau	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	2018 Cyfanswm Cronfeydd £	2017 Cyfanswm Cronfeydd £
INCWM A GWADDOLION O:					
Rhoddion a Chymynroddion	3	36,857	-	36,857	38,613
Gweithgareddau Elusennol	5				
Gweithgareddau crefyddol		-	4,035	4,035	5,742
Incwm o fuddsodiadau	4	29	-	29	29
Cyfanswm		36,886	4,035	40,921	44,384
GWARIANT AR					
Gweithgareddau Elusennol	6				
Gweithgareddau Crefyddol		37,763	3,050	40,813	45,090
INCWM NET/(GWARIANT)		(877)	985	108	(706)
CYSONI'R CRONFEYDD	11				
Cysoni'r cronfeydd a gariwyd ymlaen		750,298	2,973	753,271	753,977
CYFANSWM Y CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN		749,421	3,958	753,379	753,271

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

MANTOLEN AR 31 RHAGFYR 2018

		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	2018 Cyfanswm Cronfeydd	2017 Cyfanswm Cronfeydd
ASEDAU SEFYDLOG	Nodiadau	£	£	£	£
Asedau Diriaethol	12	676,143	-	676,143	692,677
ASEDAU CYFREDOL					
Dyledwyr	13	2,384	-	2,384	-
Arian yn y banc		76,894	3,958	80,852	69,594
		79,278	3,958	83,236	69,594
CREDYDWYR					
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	14	(3,000)	-	(3,000)	(3,000)
ASEDAU NET CYFREDOL		76,278	3,958	80,236	66,594
CYFANSWM ASEDAU LLAI DYLEDION CYFREDOL		752,421	3,958	756,379	759,271
CREDYDWYR					
Yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	15	(3,000)	-	(3,000)	(6,000)
ASEDAU NET		749,421	3,958	753,379	753,271
CRONFEYDD	17				
Cronfeydd Anghyfyngedig				749,421	750,298
Cronfeydd Cyfyngedig				3,958	2,973
CYFANSWM Y CRONFEYDD				753,379	753,271

Mae gan y cwmni elusenol hawl i beidio â chynnal awdit, dan Adran 477 o Ddeddf Cwmnïau 2006, am y flwyddyn yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2018.

Nid yw'r aelodau wedi gofyn i'r cwmni elusenol gynnal awdit o'u cyfrifon ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2018 yn unol ag Adran 476 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod eu cyfrifoldeb dros y canlynol:

(a) sicrhau bod y cwmni elusenol yn cadw cyfrifon sy'n cyd-fynd â gofynion Adran 386 a 387 o Ddeddf Cwmnïau 2006, ac

(b) yn paratoi datganiadau ariannol sy'n adlewyrchu'n gywir a theg sefyllfa'r cwmni elusenol ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, gan gynnwys y gwarged neu'r ddyled yn unol â gofynion Adranau 394 a 395 ac sydd fel arall yn cydymffurfio â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 o safbwynt datganiadau ariannol sy'n berthnasol i gwmnïau elusenol.

Cafodd y datganiadau ariannol hyn eu paratoi i gydymffurfio â gofynion arbennig Rhan 15 o Ddeddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau elusenol bychan.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 9 Gorffennaf 2019 a'u llofnodi ar eu rhan gan:



Enw: Siân Llewelyn Barnes
Ymddiriedolwr



Enw: Emlyn Penny Jones
Ymddiriedolwr

Mae'r nodiadau yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

**NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL
AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018**

1. GWYBODAETH STATUDOL

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn gwmni cyfyngedig dan warant wedi ei ymgorffori yng Nghymru o fewn y Deyrnas Gyfunol. Y Swyddfa Gofrestredig yw 9 Gerddi'r Sofran, Meisgyn, Pontyclun, Cymru, CF72 8SZ.

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu cyflwyno mewn Sterling (£), sef arian cyfred y cwmni, yn grwn i'r bunt agosaf.

Prif ddiben a natur yr elusen yw hybu gweithgarwch crefyddol.

Caiff y prif bolisiau cyfrifo a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu nodi isod. Cafodd y polisiau eu gweithredu'n gyson dros yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

2. POLISIAU CYFRIFO

Sail paratoi'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol y cwmni elusennol, sydd yn endid budd cyhoeddus o dan FRS 102, wedi cael eu paratoi yn unol â SORP (FRS 102) *Accounting and Reporting by Charities: Statement of Recommended Practice* sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safon Adroddiadau Ariannol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102 S1A Bwletin Diweddariad 1) (gweithredol o 1 Ionawr 2015), a Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi ar sail confensiwn hanesyddol.

Mae Capel y Tabernacl Cyf. yn cwrdd â'r diffiniad o endid budd cyhoeddus dan FRS 102. Caiff yr asedau a'r dyledion eu cydnabod o'r cychwyn cyntaf ar gost neu werth gweithrediad hanesyddol oni nodir yn wahanol yn y nodyn / nodiadau cyfrifo perthnasol.

Incwm

Caiff yr holl incwm ei gydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol unwaith mae gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, mae'r incwm yn debygol o gael ei dderbyn, ac mae modd mesur y swm yn hyderus.

Incwm cyfraniadau a chymynroddion

Mae incwm cyfraniadau a chymynroddion yn cynnwys cyfraniadau, rhoddion a grantiau sy'n sicrhau cyllid craidd neu sydd o natur gyffredinol a gydnabyddir lle bo hawl, a thebygolrwydd o'i dderbyn, a lle gellir mesur y swm gyda hyder digonol. Caiff incwm ei gadw'n ôl yn unig pan fydd y rhoddwr yn nodi bod rhaid ei ddefnyddio mewn cyfnod cyfrifo gwahanol, neu lle bo'r rhoddwr wedi gosod amodau y mae'n rhaid i'r elusen gwrdd â hwy cyn sicrhau hawl diamod ar y swm.

Incwm o weithgareddau elusennol

Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn cynnwys incwm a dderbyniwyd dan gytundeb neu lle bo'r hawl yn amodol ar berfformiad dan amodau penodol. Caiff yr incwm hwn ei gydnabod gan bod y gwasanaethau perthynol yn cael eu darparu, ac y mae yna hawl, a thebygolrwydd o dderbynneb, a gellir mesur y swm gyda dibynadwyedd digonol. Caiff yr incwm ei ohirio lle bo'r arian yn cael ei dderbyn cyn cyflawni'r gwasanaeth neu'r digwyddiad mae'r arian yn berthnasol iddo.

Incwm Buddsoddiadau

Caiff incwm o fuddsoddiadau ei gydnabod ar sail ei dderbyn.

Nid yw'n bolisi gan yr elusen i ddangos incwm net o wariant.

Gwariant

Caiff ymrwymadau eu cydnabod fel gwariant cyn gynted ag y bo rheidrwydd cyfreithiol neu ymarferol yn ymrwymo'r elusen i'r gwariant hwnnw. Mae'n debygol y bydd rhaid trosglwyddo buddiannau economaidd fel setliad a gellir mesur yr ymrwymiad mewn modd dibynadwy. Caiff y gwariant ei gyfrifo ar sail cronadau, ac fe'i dosbarthwyd dan benawdau sy'n corlannu'r holl gostau o fewn y categori. Lle nad oes modd clustnodi costau dan bennawd penodol, maent wedi ei glustnodi o dan weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd a wneir o'r adnoddau.

Mae costau sy'n ymwneud â chodi arian yn cynnwys costau ymgyrchu, hysbysebu a marchnata, a defnyddiau postio uniongyrchol.

Mae gwariant ar weithgarwch elusennol yn cynnwys y costau hynny a delir gan yr elusen wrth gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau er lles ei derbynwyr. Mae'n cynnwys nid yn unig y costau y gellir eu clustnodi'n uniongyrchol, ond hefyd y gweithgareddau a'r costau hynny o natur anuniongyrchol sy'n angenrheidiol er mwyn eu cefnogi.

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AMY FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

2. POLISIÂU CYFRIFO

Gwariant – parhad

Costau Cynorthwyol yw'r costau hynny nad ydynt, er yn hanfodol i'r elusen gyflawni ei hamcanion, yn creu na chyflawni gweithgarwch elusennol. Mae'r rhain yn cynnwys costau llywodraethiant, sef y costau hynny i gwrdd â gofynion cyfansoddiadol a statudol yr elusen, gan gynnwys ffioedd cyfrifo a chostau'n gysylltiedig â rheolaeth strategol yr elusen.

Asedau Sefydlog diriaethol

Caiff asedau sefydlog eu cyfalafu ar gost.

Amcangyfrifir y dibrisiad er mwyn lleihau cost yr ased, namyn yr amcangyfrif o werth sy'n weddill, dros oes yr ased fel a ganlyn:

Eiddo rhyddfrait	- dros 40 mlynedd
Offer a chyfarpar	- 25% o'r gost
Offer cyfrifiadurol	- 50% o'r gost

Trethiant

Mae'r elusen yn cael ei heithrio o dalu treth gorfforaethol ar ei gweithgarwch elusennol.

Cyfrifo Cronfeydd

Gellir defnyddio cronfeydd anghyfyngedig yn unol â'r amcanion elusennol gyda sêl bendith yr ymddiriedolwyr. Dim ond at ddibenion penodol o fewn amcanion yr elusen y gellir defnyddio cronfeydd cyfyngedig. Ceir cyfyngiad pan fo'r rhoddwr yn nodi hynny, neu pan fo'r gronfa wedi ei chreu i godi arian at bwrpasau cyfyngedig penodol.

Ceir esboniad pellach am natur a diben pob cronfa yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Ymrwymadau Hurbrynu a Phrydles

Caiff rhenti a delir dan weithredoedd pryddles eu dangos yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Offerynnau Ariannol

Dim ond asedau ac ymrwymadau ariannol o'r math sy'n gymwys ar gyfer offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu derbyn yn y lle cyntaf ar sail y gwerth ariannol, ac yna eu mesur ar sail eu gwerth setliad.

Caiff benthyciadau rhatach eu derbyn a'u mesur yn y lle cyntaf ar sail eu gwerth ariannol, gyda'r symiau gaiff eu cario drosodd yn cael eu haddasu yn y blynyddoedd canlynol i adlewyrchu taliadau a wnaed ac unrhyw log sy'n deillio ohonynt.

Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr masnachol a dyledwyr eraill yn ôl y swm y cytunwyd arno ar ôl cynnwys unrhyw ddisgownt masnachol. Caiff blaendaliadau eu prisio ar y swm net o unrhyw ddisgownt sy'n ddyledus a dalwyd ymlaen llaw.

Credydwyr

Cydnabyddir credydwyr lle mae gan yr elusen ymrwymiad cyfredol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a bod y swm i gwrdd â'r ymrwymiad yn un y gellir ei fesur neu ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, caiff credydwyr eu cydnabod wrth iddynt setlo'r swm ar ôl caniatáu unrhyw ddisgownt masnachol sy'n ddyledus.

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

3. RHODDION A CHYMYNRODDION

	2018	2017
	£	£
Aelodaeth	21,393	21,807
Casgliadau Rhydd	1,798	2,545
Rhent Tŷ Capel	4,525	4,590
Y Fynwent	-	151
Hurio'r Ganolfan	2,127	2,493
Amrywiol	966	878
Ad-daliad Treth Incwm	6,048	6,149
	36,857	38,613

4. INCWM BUDDSODDIADAU

	2018	2017
	£	£
Llog cyfrif cadw	29	29

5. INCWM O WEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	2018	2017
	£	£
Gweithgarwch		
Apêl Lesotho		404
Cronfa Elusennol	2,460	3,511
Cymorth Cristnogol	-	105
Apêl Diffibriliwr	-	1,722
Apêl Madagascar	1,575	-
	4,035	5,742

6. COSTAU GWEITHGAREDDAU CREFYDDOL

	Costau Uniongyrchol (gweler nodyn 7)	Costau Cymorth	Cyfanswm
	£	£	£
Gweithgareddau Crefyddol	39,793	1,020	40,813

7. COSTAU UNIONGYRCHOL GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

	2018	2017
	£	£
Costau Staff	5,668	5,625
Yswiriant	1,044	3,310
Gwres, Golau a Dŵr	5,063	4,534
Pregethwyr	950	1,520
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg	800	800
Llenyddiaeth	195	685
Gweinyddol	815	1,124
Y Ganolfan	903	936
Y Fynwent	1,265	1,050
Amrywiol	1,387	2,171
Cronfa Elusennau	3,050	3,134
Cymorth Cristnogol	-	1,205
Costau Cynnal a Chadw	2,119	320
Apêl Diffibriliwr	-	1,182
Dibrisiant	16,534	16,534
	39,793	44,130

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

8. INCWM NET/(GWARIANT)

Nodir incwm net/(gwariant) ar ôl codi tâl /(credydu):

	2018	2017
	£	£
Ffi archwilio	1,020	960
Dibrisiant – asedau'r cwmni	<u>16,534</u>	<u>16,534</u>

9. CYDNABYDDIAETH A BUDDIANNAU'R YMDDIRIEDOLWYR

Ni roddwyd unrhyw gydnabyddiaeth na buddiannau eraill i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2018 na'r flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2017.

Costau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd unrhyw dreuliau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2018 na'r flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2017.

10. COSTAU STAFF

Ar gyfartaledd misol, cyflogwyd y nifer canlynol o staff yn ystod y flwyddyn:

	2018	2017
	2	2
	<u>2</u>	<u>2</u>

Ni dderbyniodd yr un o'r cyflogeion dâl o fwy na £60,000.

11. CYMARIAETHAU AR GYFER Y DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL

	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd £
INCWM A CHYMYNRODDION O:			
Rhoddion a Chymynroddion	38,612	1	38,613
Gwaith Elusennol			
Gweithgarwch Crefyddol	-	5,742	5,742
Incwm Buddsoddi	29	-	29
Cyfanswm	<u>38,641</u>	<u>5,743</u>	<u>44,384</u>
 GWARIANT AR:			
Gweithgarwch Elusennol			
Gweithgarwch Crefyddol	39,569	5,521	45,090
Cyfanswm	<u>39,569</u>	<u>5,521</u>	<u>45,090</u>
 INCWM NET/(GWARIANT)	 (928)	 222	 (706)
 Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	 <u>(1,100)</u>	 <u>1,100</u>	 - <u>-</u>
Symudiadau net o fewn cronfeydd	(2,028)	1,322	(706)
 CYSONI CRONFEYDD			
Cyfanswm a gariwyd ymlaen	752,326	1,651	753,977
CYFANSWM CRONFEYDD A DDYGWYD YMLAEN	<u>750,298</u>	<u>2,973</u>	<u>753,271</u>

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

12. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

	Eiddo Rhyddfrait	Cyfarpar ac Offer	Cyfansym- iau
COST	£	£	£
Ar 1 Ionawr 2018 a 31 Rhagfyr 2018	<u>761,377</u>	<u>24,614</u>	<u>785,991</u>
DIBRISIANT			
Ar 1 Ionawr 2018	68,700	24,614	93,314
Tâl am y flwyddyn	<u>16,534</u>	-	<u>16,534</u>
Ar 31 Rhagfyr 2018	<u>85,234</u>	<u>24,614</u>	<u>109,848</u>
GWERTH NET YN Y LLYFR			
Ar 31 Rhagfyr 2018	<u>676,143</u>	=	<u>676,143</u>
Ar 31 Rhagfyr 2017	<u>692,677</u>	-	<u>692,677</u>

13. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS O FEWN Y FLWYDDYN

	2018 £	2017 £
Blaendaliadau	<u>2,384</u>	<u>-</u>

14. CREDYDWYR: SYMIAU'N SY'N DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN

	2018 £	2017 £
Benthyciadau eraill (gweler nodyn 16)	<u>3,000</u>	<u>3,000</u>

15. CREDYDWYR: SYMIAU SY'N DDYLEDUS AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

	2018 £	2017 £
Benthyciadau eraill (gweler nodyn 16)	<u>3,000</u>	<u>6,000</u>

16. BENTHYCIADAU

Ceir dadansoddiad o ddyddiad aeddfedu benthyciadau isod:

	2018 £	2017 £
Symiau sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn:		
Benthyciadau eraill	<u>3,000</u>	<u>3,000</u>
Symiau sy'n ddyledus rhwng un a dwy flynedd:		
Benthyciadau eraill: 1–2 flynedd	<u>3,000</u>	<u>3,000</u>
Symiau sy'n ddyledus rhwng dwy a phum mlynedd:		
Benthyciadau eraill	<u>-</u>	<u>3,000</u>

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AMY FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

16. BENTHYCIADAU – parhad

Roedd yr offerynnau ariannol yn mesur y swm a dderbyniwyd gyda'r swm oedd yn cael ei gario ymlaen yn cael ei addasu i adlewyrchu'r ad-daliadau ac unrhyw log cronedig. Darperir y benthyciad ariannol gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (Corfforedig) ar raddfa llog o 0%.

17. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD

	Ar 1/1/18	Symudiadau net mewn cronfeydd	Ar 31/12/18
	£	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Gyffredinol	750,298	(877)	749,421
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Lesotho	1,055	-	1,055
Cronfa Elusennol	1,378	(590)	788
Apêl Diffibriliwr	540	-	540
Cronfa Madagascar	-	1,575	1,575
	<u>2,973</u>	<u>985</u>	<u>3,958</u>
CYFANSYMIAU CRONFEYDD	<u>753,271</u>	<u>108</u>	<u>753,379</u>

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir uchod fel a ganlyn:

	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a wariwyd £	Symudiadau mewn cronfeydd £
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa gyffredinol	36,886	(37,763)	(877)
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Elusennau	2,460	(3,050)	(590)
Cronfa Madagascar	1,575	-	1,575
	<u>4,035</u>	<u>(3,050)</u>	<u>985</u>
CYFANSYMIAU CRONFEYDD	<u>40,921</u>	<u>(40,813)</u>	<u>108</u>

Symudiadau cymharol mewn cronfeydd

	Ar 1/1/17	Symudiadau net mewn cronfeydd	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd	Ar 31/12/17
	£	£	£	£
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa Gyffredinol	752,326	(928)	(1,100)	750,298
Cronfeydd Cyfyngedig				
Cronfa Lesotho	651	404		1,055
Cronfa Elusennau	1,000	378	-	1,378
Cymorth Cristnogol	-	(1,100)	1,100	-
Apêl Diffibriliwr	-	540	-	540
	<u>1,651</u>	<u>222</u>	<u>1,100</u>	<u>2,973</u>
CYFANSYMIAU CRONFEYDD	<u>753,977</u>	<u>(706)</u>	<u>-</u>	<u>753,271</u>

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AMY FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

17. SYMUDIADAU O FEWN CRONFEYDD – parhad

Mae'r symudiadau net mewn cronfeydd, a gynhwysir yn yr uchod fel a ganlyn:

	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a wariwyd £	Symudiadau mewn cronfeydd £
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Gyffredinol	38,641	(39,569)	(928)
Cronfeydd Cyfyngedig			
Cronfa Lesotho	404	-	404
Cronfa Elusennau	3,512	(3,134)	378
Cymorth Cristnogol	105	(1,205)	(1,100)
Apêl Diffibriliwr	1,722	(1,182)	540
	5,743	(5,521)	222
CYFANSWM CRONFEYDD	44,384	(45,090)	(706)

Yn dilyn isod gwelir y sefyllfa wrth gyfuno 12 mis y flwyddyn gyfredol a 12 mis y flwyddyn flaenorol:

	Ar 1/1/17 £	Symudiad net mewn cronfeydd £	Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd £	Ar 31/12/18 £
Cronfeydd Anghyfyngedig				
Cronfa Gyffredinol	752,326	(1,805)	(1,100)	749,421
Cronfeydd Cyfyngedig				
Cronfa Lesotho	651	404	-	1,055
Cronfa Elusennau	1,000	(212)	-	788
Cymorth Cristnogol	-	(1,100)	1,100	-
Apêl Diffibriliwr	-	540	-	540
Cronfa Madagascar	-	1,575	-	1,575
	1,651	1,207	1,100	3,958
CYFANSYMAU CRONFEYDD	753,977	(598)	-	753,379

Mae cyfuniad o symudiadau net mewn cronfeydd dros 12 mis y flwyddyn gyfredol a 12 mis y flwyddyn flaenorol, wedi ei gynnwys uchod fel a ganlyn:

	Adnoddau a dderbyniwyd £	Adnoddau a wariwyd £	Symudiadau mewn cronfeydd £
Cronfeydd Anghyfyngedig			
Cronfa Gyffredinol	75,527	(77,332)	(1,805)
Cronfeydd Cyfyngedig			
Apêl Lesotho	404	-	404
Cronfeydd Elusenol	5,972	(6,184)	(212)
Cymorth Cristnogol	105	(1,205)	(1,100)
Apêl Diffibriliwr	1,722	(1,182)	540
Cronfa Madagascar	1,575	-	1,575
	9,778	(8,571)	1,207
CYFANSYMAU CRONFEYDD	85,305	(85,903)	(598)

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

NODIADAU AR DDATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018 – PARHAD

18. DAGELIADAU PARTÏON PERTHYNOL

Cyfanswm y cyfraniadau a wnaed i'r elusen gan bartïon perthynol yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2018 oedd £3,474.

19. OFFERYNNAU ARIANNOL

	2018	2017
	£	£
Asedau ariannol ar sail cost amorteiddiad	80,852	69,594
Treuliau ariannol ar sail cost amorteiddiad	6,000	9,000

Mae'r nodiadau hyn yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

DATGANIAD MANWL O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2018

INCWM A CHYMYNRODDION	2018 £	2017 £
Cyfraniadau a Chymynroddion		
Aelodaeth	21,393	21,807
Casgliadau rhydd	1,798	2,545
Rhent Tŷ Capel	4,525	4,590
Y Fynwent	-	151
Llogi'r Ganolfan	2,127	2,493
Amrywiol	966	878
Ad-daliad Treth Incwm	6,048	6,149
	36,857	38,613
Incwm Buddsoddiadau		
Llog y Cyfrif Cadw	29	29
Gweithgareddau Elusennol		
Apêl Lesotho	-	404
Cronfa Elusennau	2,460	3,511
Cymorth Cristnogol	-	105
Apêl Diffibriliwr	-	1,722
Apêl Madagascar	1,575	-
	4,035	5,742
Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd	40,921	44,384
GWARIANT		
Gweithgareddau Elusennol		
Cyflogau	5,668	5,625
Yswiriant	1,044	3,310
Gwres, golau a dŵr	5,063	4,534
Pregethwyr	950	1,520
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg	800	800
Llenyddiaeth	195	685
Gweinyddol	815	1,124
Y Ganolfan	903	936
Y Fynwent	1,265	1,050
Amrywiol	1,387	2,171
Cronfa Elusennau	3,050	3,134
Cymorth Cristnogol	-	1,205
Costau Cynnal a Chadw	2,119	320
Apêl Diffibriliwr	-	1,182
Eiddo Rhyddfrait	16,534	16,534
	39,793	44,130
Costau Cymorth		
Costau Llywodraethu		
Ffi Archwilwyr	1,020	960
Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd	40,813	45,090
(Gwariant) Net / Incwm	108	(706)

Nid yw'r dudalen hon yn rhan o'r datganiad ariannol statudol

CAPEL Y TABERNACL, CYF

Atodiad 1:

CYFRANIADAU'R AELODAU (£)

Dynoda () aelod unigol
Dynoda (c) gyfraniad drwy gyfamod*

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
1		c	420	110	530
2					
3			78		78
4		c	300		300
5	*	c	150		150
6		c	250	20	270
7		c	250	55	305
8	*		180	60	240
9		c	216		216
10	*	c	300	42	342
11		c	420	110	530
12		c	240	100	340
13		c	540		540
14		c	840	240	1080
15					
16	*	c	360	45	405
17	*	c	60		60
18		c	480	120	600
19		c	525	175	700
20	*	c	156	10	166
21	*	c	102		102
22		c	960		960
23	*	c	180		180
24		c	180		180
25		c	360	50	410
26		c	440	100	540
27		c	110	40	150
28	*	c	240	100	340
29		c	105	45	150
30		c	480	50	530
31		c	180		180
32	*	c	90	80	170
33	*	c	300		300
34		c	156		156
35	*	c	120		120
36	*	c	240		240
37	*	c	132	26	158
38	*				
39					
40		c	240		240
41	*	c	110	14	124
42	*				

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
43	*	c	120		120
44	*	c	240		240
45	*	c	90	55	145
46	*	c			
47		c	240		240
48		c	300	50	350
49		c	204		204
50	*	c	60		60
51	*	c	162	73	235
52		c	15		15
53	*	c	240		240
54	*	c	120		120
55					
56		c	120		120
57	*	c	73	20	93
58	*	c	360		360
59	*	c	48		48
60		c	240		240
61	*	c	160	110	270
62		c	240		240
63	*	c	73	20	93
64		c	480	40	520
65	*	c	150		150
66	*	c			
67	*	c	19		19
68	*	c			
69	*	c	120		120
70		c	240		240
71		c	300	120	420
72	*	c	110		110
73	*	c	120		120
74	*	c	102	15	117
75		c	240		240
76	*	c	300		300
77		c	360		360
78		c			
79	*	c	120		120
80	*	c			
81		c	180		180
82		c			
83					
84					

CAPEL Y TABERNAACL, CYF

CYFRANIADAU AELODAU (£) (Parhad)

Rhif	*	c	Achos	Elusen	Cyfanswm
85					
86			110		110
87	*	c			
88	*	c	240	100	340
89		c	240		240
90	*	c	100		100
91					
92	*	c	240		240
93		c	120		120
94					
95	*	c	120		120
96		c	264		264
97	*	c	130		130
98	*	c	120		120
99					
100		c	120		120
101		c	180		180
102		c	240		240
103		c	480		480
104					
105					
106		c	40		40
107		c	2		2
108	*	c	40		40
109	*	c	100		100
110	*	c	25		25
111	*	c	120		120
112	*	c	300		300
113					
114		c	240		240
115					
116	*	c	60		60
117		c			
118					
119	*	c	35		35
120					
121		c	180		180
122		c	600	190	790
123	*	c	120	25	145
124	*	c	120		120
125					
126	*	c	70	30	100
127					
128	*	c	60		60
129					

CYFANSWM Y CYFRANIADAU

Aelodaeth/Achos £21,252
Elusen: £2,440

**Atodiad 2:
YSTADEGAU
2018**

AELODAU

Nifer yr aelodau ar ddechrau'r flwyddyn 170
 Aelodau newydd 2
 Aelodau wedi marw 1
 Aelodau wedi ymadael 0

Nifer yr aelodau ar ddiwedd y flwyddyn 171

**YR YSGOL SUL
A'R TWMIAID**

Dosbarth 3 20
 Dosbarth 2 20
 Dosbarth 1 30

 Twmiaid 16

Cyfanswm 86